

Cyhoeddiadau

YR OFALAETH

Nos Fercher, Ionawr 14: Pwyllgor yr Ofalaeth yn Capel Coch am 7.00 o'r gloch.

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Sul, Ionawr 18: Cynhelir Oedfa Deulu am 10.00 o'r gloch a gwasanaethir yn honno ac yn yr oedfa am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Dydd Mawrth, Ionawr 13: Bore Coffi er budd Cronfa Adnoddau'r Capel rhwng 10.45 a 12.00 o'r gloch.

Nos Fawrth, Ionawr 13: Cymdeithas Undebol am 7.00 o'r gloch. Manon Lloyd Williams yn sôn am 'Ddiolgelwch yn y Cartref'.

Dydd Sul, Ionawr 18: Gwasanaethir am 10.00 o'r gloch gan Mr Ifor Glyn Efans ac am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Geraint Roberts. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch.

Y mis nesaf - Deiniolen

Ionawr 11

10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Cyfarfod Gweddi
Ddechrau'r Flwyddyn

Ionawr 18

10.00 a.m. - Oedfa Deulu
5.00 p.m. - Y Gweindog

Ionawr 25

10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Canon Idris Thomas

REHOBOTH

Dydd Sul, Ionawr 18: Dim oedfa.

BETHLEHEM

Dydd Sul, Ionawr 18: Y Parchg Pryderi Llwyd Jones, Cricieth am 2.00 o'r gloch.

CARMEL

Nos Wener, Ionawr 9: 'Dwylo Prysus' am 6.30 o'r gloch.

Dydd Sul, Ionawr 18: Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch. Y Parchg Dewi Morris am 2.00 o'r gloch.

CYNLLUN EFE

Dydd Gwener, Ionawr 16: Cyfarfod Gweddi yn 'Cartref', Caeathro rhwng 10.30 a 11.15 o'r gloch.



Y mis nesaf - Llanberis

Ionawr 11

10.00 a.m. - Y Gweinidog
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Oedfa MOLI

Ionawr 18

10.00 a.m. - Mr Ifor Glyn Efans
11.15 a.m. - Yr Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Parchg Geraint Roberts

Ionawr 25

10.30 a.m. - Oedfa Deulu
DIM OEDFA NOS



Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las
Rhif 620 - Dydd Sul, 11 Ionawr, 2015

Charlie Hebdo

Gwaetha'r modd, nid rhegfydd oedd y penawdau a ddisgrifiai'r 'bloody siege' yn Ffrainc ddydd Gwener. Byddai llond papur newydd o regfydd wedi bod ganml gwell na'r hyn a gafwyd mewn archfarchnad ym Mharis ac ar stad ddiwydiannol ar gyrion y ddinas yn nhref Dammartin-en-Goele. Wedi tridiau gwaedlyd roedd ugain o bobl wedi eu lladd: deuddeg ohonynt yn swyddfeydd y cylchgrawn *Charlie Hebdo* ddydd Mercher; plismones ar ochr stryd ddydd Iau; pedwar o wystlon yn yr archfarchnad ddydd Gwener; ac yn ôl pob tebyg y ddau frawd a fu'n gyfrifol am ladd y deuddeg, ynghyd â'r dyn a laddodd y pump arall. Gwarchae gwaedlyd a thridiau trist.

Fe gondemniwyd y llofruddiaethau hyn gan lywodraeth a phobl Ffrainc ynghyd â llywodraethau a chyfyngau a phobl ar draws y byd. Fel y gellid disgwyl, mae arweinwyr crefyddol, yn cynnwys Cristnogion ac Iddewon a Moslemiaid, hefyd wedi condemnio'r ymosodiadau ciaidd hyn. A da hynny.

Ond beth a wnawn ni? Gallwn ninnau gondemnio'r lladd. Gallwn weddio dros y bobl a ddiodefodd yn Ffrainc yr wythnos ddiwethaf. Gallwn hefyd weddio y bydd pobl sy'n cynllwynio'r math hwn o gyflafan yn cael eu hatal, a hyd yn oed yn cael gras i gefnu ar y fath lwybr.

Wrth gondemnio'r hyn a ddigwyddodd i staff *Charlie Hebdo*, mae miliynau o bobl yn awyddus hefyd i ddangos eu

cefnogaeth i egwyddor 'rhyddid y wasg' a 'rhyddid mynegiant' yr oedd y cylchgrawn hwn mor danbaid drosti wrth fynnu cyhoeddi'r cartwnau a oedd yn dychanu crefydd Islam a'i phroffwyd Mohammed. Gwelwyd pobl yn herio'r terfysgwyr trwy arddel y geiriau a'r logo '*Je suis Charlie*' er mwyn uniaethu â'r bobl a laddwyd a chefnogi'r egwyddor bwysig hon. Yn sicr, roedd y miloedd a wnaeth hyn ar strydoedd Paris yn cyhoeddi'n ddewr na fyddan nhw na'u cymdeithas yn ildio i fygythiadau'r terfysgwyr.

Gallwn ddeall a gwerthfawrogi hynny. Ond nid yw'r rhyddid mynegiant hwn yn golygu bod pobl yn cael dweud beth a fynnon nhw bob amser. Mewn cymdeithas wâr, mae pobl ar brydiau'n dewis peidio â dweud rhai pethau: peidio â dweud anwiredd; peidio â dweud rhai pethau a fydd yn achosi loes i eraill; a hyd yn oed beidio â dweud pethau sy'n sicr o greu helynt rhwng pobl a'i gilydd. Gallem ddadlau bod gennym hawl i ddweud yr holl bethau hyn, ond dewiswn beidio â'u dweud am wahanol resymau. Mae'n dda cofio nad ofn terfysgwyr yw'r unig reswm dros ddewis peidio â dweud neu wneud rhai pethau. I'r Cristion, yn sicr, mae rhyddid mynegiant, sef ein hawl i ddweud a fynnom, yn mynd law yn llaw â'r ddyletswydd sydd arnom i ddefnyddio geiriau'n ofalus, er lles i eraill, ac er gogoniant Duw bob amser.

Dof nôl at ein hymateb fel Cristnogion i ymosodiadau ar ein ffydd y tro nesaf.

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Heddiw

Croeso cynnes i oedfaon y Sul. Boed bendith Duw ar ein haddoliad heddiw.

Byddaf fi'n arwain yr oedfa yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch ac Oedfa MOLI am 5.00 o'r gloch.

Bydd yr Ysgol Sul yn Neiniolen am 10.15 o'r gloch; ac am 5.00 o'r gloch cynhelir Cyfarfod Gweddi Dechrau'r Flwyddyn. Diolch ymlaen llaw i'r rhai a fydd yn arwain yr oedfa hon.

Bydd yr Ysgol Sul yn Nhalybont am 10.00 o'r gloch a byddaf yn arwain Oedfa Gymundeb yno am 2.00 o'r gloch.

Bydd yr Ysgol Sul yn Llanllechid am 10.30 o'r gloch a gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Parchg Ddr Dafydd Wyn Wiliam, Bodedern. Croeso iddo, a diolch am ei wasanaeth.

Nid oes oedfa yn Rehoboth.

Pwyllgor yr Ofalaeth

Cynhelir Pwyllgor yr Ofalaeth yn Capel Coch am 7.00 o'r gloch nos Fercher yr wythnos hon, nos Fercher, Ionawr 14.

Bydd y pwyllgor hwn yn trafod materion ariannol yr Ofalaeth newydd, a gob-eithio bydd modd i bob eglwys gael ei chynrychioli yn y cyfarfod hwn.

Cofion

Anfonwn ein cofion gorau at bawb sydd heb fod yn dda eu hiechyd ar hyn o bryd.

Ysgolion Sul

Mae'r Ysgolion Sul yn ail ddechrau heddiw wedi gwyliau'r Nadolig. Diolch yn fawr iawn i'r athrawon sy'n gweithio mor galed a ffyddlon i ddarparu cyfle i'r plant a'r ieuencid i ddysgu am y Ffydd ac am yr Arglwydd Iesu Grist.

Yn rhyfedd iawn, mae amser cychwyn y pedair Ysgol Sul yn wahanol. Dyma'r drefn:

10.00 a.m. Bethlehem, Talybont
10.15 a.m. Deiniolen
10.30 a.m. Carmel, Llanllechid
11.15 a.m. Capel Coch, Llanberis

Dymunwn yn dda i'r Ysgolion Sul, a gweddiwn dros eu gwaith, a thros yr athrawon a'r plant a'r ieuencid sy'n dod iddynt o Sul i Sul.

Diolch

Diolch yn fawr iawn am y croeso cynnes a gefais yn yr oedfa yng Ngharmel nos Sul diwethaf ac yna yng nghyfarfod 'Bwrlwm' yn Nhalybont bnawn dydd Iau. Edrychaf ymlaen at gydweithio â chi a'ch gwasanaethu fel Gweinidog.

Bore coffi

Cynhelir y Bore Coffi misol yn festri Capel Coch rhwng 10.45 a 12.00 o'r gloch, ddydd Mawrth, Ionawr 13 er budd Cronfa Adnoddau'r Capel.

Cymdeithas Undebol

Cynhelir Cymdeithas Undebol Llanberis yn Capel Coch am 7.00 o'r gloch nos Fawrth, Ionawr 13. Ceir sgwrs am 'Ddiogelwch yn y Cartref' gan Manon Lloyd Williams, Llanberis, ac edrychwn ymlaen at ei chroesawu ac at glywed yr hyn fydd ganddi i'w ddweud.

Cofiwch bod croeso cynnes i unrhyw un i'r cyfarfod hwn, a byddem yn falch o weld rhai nad ydynt yn dod yn rheolaidd i'r Gymdeithas.

Gronyn

Byddaf yn falch o dderbyn unrhyw bwt o newyddion neu gyhoeddiad ar gyfer *Gronyn* erbyn nos Iau bob wythnos.

Bydd hynny'n help mawr wrth ei baratoi bob wythnos.

Cyfarfod Gweddi Efe

Cynhelir y Cyfarfod Gweddi nesaf yn nhy Andrew Settatee, Cartref, Caeathro rhwng 10.30 a 11.15 o'r gloch fore Gwener, Ionawr 16.

Croeso i unrhyw un ddod atom, ac nid oes rhaid poeni am ddod bob wythnos os nad yw'n hwylus wrth gwrs.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn eto heddiw â Mrs Phyllis Morris, Bryn Tirion, Rhiwen, Deiniolen yn y brofedigaeth o golli ei merch, Mrs Ann Owen, Bro Rhyddallt, Llanrug wythnos i ddydd Gwener.

Bum yn gwasanaethu yn angladd Ann yn yr Amlogsgfa ym Mangor ddydd Gwener echdoe. Cydymdeimlwn hefyd â'i phriod Derek a'u plant Gwen, Meical ac Iwan a'r teulu cyfan yn eu colled fawr.

Oedfa Deulu

Cofiwch mai Oedfa Deulu fydd gennym yn Neiniolen am 10.00 o'r gloch fore Sul nesaf, Ionawr 18.

Gwefan Gronyn

Gair yn fyr eto heddiw am wefan yr Ofalaeth, sy'n sôn am ein gwaith a'n hamrywiol weithgareddau.

Fe welir cyfeiriadau'r Ofalaeth yn y blwch ar y dudalen gyferbyn:

gronyn.wordpress.com
neu
gronyn.org

Mae Gronyn yn cael ei osod ar y wefan bob wythnos, ac felly os na fyddwch wedi cael copi ohono gallwch ei ddarllen ar y wefan. Erbyn hyn, wrth gwrs, mae'n well gan rai ddarllen gwahanol gyhoeddiadau ar y We, ac felly bydd modd i chi ddarllen rhifyn diweddaraf Gronyn ar y wefan hon bob wythnos. Fel arfer, bydd wedi ei osod ar y wefan erbyn nos Sul, neu nos Lun fan bellaf.

Fe gaiff y wefan ei hun ei diweddarau cyn gynted â phosib gydag enw newydd yr Ofalaeth ynghyd â manylion am y ddwy eglwys newydd.

Gobeithio y bydd y wefan hefyd o fudd i chi.